## Adran 106 Protocol ar gyfer Gweithredu

1. Derbyn Arian – Bydd y Rheolwr Gyfarwyddwr, Pennaeth Adfywio a Chynllunio, Rheolwr Gweithredol dros Reoli Datblygu, Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet perthnasol, a gwasanaethau perthnasol yn cael eu hysbysu yn ysgrifenedig a'u cynnwys mewn ymgynghoriad er mwyn amlygu unrhyw gyfleoedd posibl ar gyfer gweithredu, gan ganiatáu ar gyfer cyfnod ymgynghori o **21 diwrnod**.

↓↓

2. Caiff Aelodau Ward Lleol (gan gynnwys wardiau cyfagos o fewn 100m o'r safle arfaethedig) a'r Aelodau Cabinet perthnasol eu hysbysu yn ysgrifenedig am unrhyw gynllun (iau) arfaethedig gan ganiatáu cyfnod ymgynghori o **14 diwrnod** ar gyfer sylwadau.

↓↓

**NNodyn 1:**
Pan fo arian eisoes wedi'i neilltuo o fewn telerau'r cytundeb cyfreithiol a lofnodwyd caiff hyn ei nodi h.y. dim cwmpas i ymgynghori lle mae'r arian wedi'i wario.

↓↓

3. Aelodau Ward Lleol i roi sylwadau ar gynigion ar gyfer gwario'r arian gan ystyried cyfnod bras y cytundeb cyfreithiol yn ystod y cyfnod ymgynghori **14 diwrnod**, oni bai y cytunir ar fwy o amser.

↓↓

4. Ar ôl y cyfnod 14 diwrnod, caiff y gwasanaeth ei hysbysu am unrhyw sylwadau a wnaed, a rhaid eu hystyried o ran dichonoldeb ac os cânt eu gwrthod, rhaid rhoi rhesymau dilys.

↓↓

5. Y gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Cabinet perthnasol, yn argymell y ffordd orau o wario'r arian.

↓↓

6. Caiff y penderfyniad terfynol ei wneud gan y Pennaeth Adfywio a Chynllunio (Marcus Goldsworthy) ar y cyd â'r Pennaeth / Penaethiaid Gwasanaeth / Gwasanaethau yn unol â 'gweithdrefn galw i mewn'.

↓↓

7. Caiff Aelodau Cabinet Perthnasol ac Aelodau Lleol eu hysbysu. Os caiff ei dramgwyddo, mae gan unrhyw aelod 14 diwrnod i ofyn i'r penderfyniad gael ei alw i mewn gan y Cabinet i benderfynu arno.

↓

**Nodyn 2:**
Pan fo arian yn cael ei ddefnyddio i ariannu cynllun cyfalaf, bydd angen cymeradwyaeth o flaen llaw gan y Cabinet, i gynnwys yr arian yn y rhaglen gyfalaf. Rhaid cael cymeradwyaeth y Cabinet cyn i'r cynllun ddechrau

↓↓

8. Y gwasanaeth yn cael ei hysbysu a'i awdurdodi i wario swm Adran 106.

↓↓

9. Y project yn cael ei roi ar waith.

↓↓

10. Adroddiad Monitro Blynyddol yn nodi bod y project wedi'i roi ar waith a'r cyfraniad wedi'i wario.